Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd
CF99 1NA

30 Mawrth 2020

Annwyl Janet,

**Deiseb P-05-936 Cynnig Sgrinio am Ganser y Coluddyn i Bobl dros 74 oed**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Chwefror am y ddeiseb a gyflwynwyd gan Andrew Lye ynghylch sgrinio am ganser y coluddyn.

Fel mae'r ddeiseb yn nodi, nid oes darpariaeth yng Nghymru ar gyfer pobl dros 74 oed heb unrhyw symptomau i ddewis bod yn rhan o'r rhaglen sgrinio, yn wahanol i bobl o'r un oed yn yr Alban a Lloegr. Mae unigolion hŷn yng Nghymru a Bowel Cancer UK wedi mynegi pryder yn uniongyrchol â mi hefyd ynghylch y diffyg cydraddoldeb hwn. Ar 13 Ionawr 2020, cefais gyfle i gwrdd â chynrychiolwyr Bowel Cancer UK i drafod eu pryderon.

Rwyf ar ddeall nad yw'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer sgrinio pobl dros 74 oed yn ddigonol i alluogi Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU i gydbwyso'r manteision a'r niwed a gwneud argymhellion. Felly, rwyf wedi ysgrifennu ar y cyd â Bowel Cancer UK at Bwyllgor Sgrinio'r DU i ddweud ein bod yn meddwl bod angen datblygu sylfaen dystiolaeth, fel mater o frys, er mwyn gallu ystyried yr achos yn iawn dros ymestyn y rhaglen sgrinio i bobl dros 74 oed, neu i ganiatáu i bobl hŷn ddewis bod yn rhan o'r rhaglen sgrinio fel y maent yn cael gwneud yn yr Alban a Lloegr.

Rydym wedi gofyn i'r Pwyllgor, fel cam cyntaf, i roi gwybod i ni: sut, yn eu barn nhw, mae modd cryfhau'r sylfaen dystiolaeth bresennol; a oes unrhyw gamau'n cael eu gwneud i lenwi'r bylchau mewn gwaith ymchwil, ac os oes, beth yw'r camau hynny. Rydym yn aros am ymateb y Pwyllgor.

Yn gywir,

Heléna Herklots CBE
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

www.olderpeoplewales.com